

Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru

North Wales Public Sector Equality Network



# Rhwydwaith cydraddoldeb sector cyhoeddus gogledd Cymru

Prospectws ar gyfer cydweithio

2016 – 2020



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board



Cwmni Adsefydlu Cymunedol  
Cymru  
Wales  
Community Rehabilitation Company



PRIFYSGOL  
Glyndŵr  
Wrexham

Wrexham  
glyndŵr  
UNIVERSITY

## Cynnwys

Ein cenhadaeth .....	3
Ein hamcanion cyfun .....	4
Y partneriaid .....	4

Rydym yn medru darparu'r ddogfen hon mewn ffurf arall, ar eich cais; gofynnwch i un o'n partneriaid.

# Ein cenhadaeth

---

*Prif ffrydio a chynnig cyngor ynglŷn â chydraddoldeb drwy'r gogledd trwy amcanion cyfun, cydweithio a threfnu.*

Er mwyn darparu hyn, mi fydd y rhwydwaith yn:

1. trafod a rhannu ymarfer gorau ym maes cydraddoldeb mewn awyrgylch creadigol a chefnogol
2. ystyried gweithio mewn partneriaeth, a gweithio amlasiantaeth, ar bynciau'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu cydraddoldeb
3. cydweithio i gefnogi a datblygu y gweithwyr sy'n arwain ym maes cydraddoldeb, gan rannu ymarfer gorau, gwybodaeth a galluoedd
4. manteisio'n llawn ar bob cyfle i gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus a digwyddiadau cysylltu ar y cyd
5. canfod cyfleoedd ar gyfer rhannu ymarfer gorau ym maes hyfforddiant a datblygu sy'n berthnasol i gydraddoldeb a hawliau dynol
6. defnyddio galluoedd y grŵp i drefnu gweithdai cydraddoldeb, a darparu astudiaethau achos ar gyfer aelodau eraill
7. trefnu digwyddiadau â siaradwyr gwadd, gyda chytundeb gweddill y rhwydwaith, er mwyn datblygu dealltwriaeth a darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i gydraddoldeb
8. gweithredu fel 'llais y gogledd' gyda swyddogion cydraddoldeb Cymru, er enghraifft cynnig argymhellion i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Llywodraeth Cymru
9. dylanwadu ar waith byrddau gwasanaethau lleol y gogledd yng nghyd-destun datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol
10. cydweithredu â grwpiau cydraddoldeb eraill, cyrff lleol a chyryff cyhoeddus cyffiniol, yn ôl y galw
11. Adolygu'r rhwymedigaethau yma'n rheolaidd.

# Ein Cyd Amcanion

---

**Amcan Un:** Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

**Amcan Dau:** Mynd i'r afael â chanlyniadau anghyfartal mewn addysg i fwyafu potensial unigol

**Amcan Tri:** Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog

**Amcan Pedwar** Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn diogelwch personol

**Amcan Pump:** Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cynrychiolaeth a Llais

**Amcan Chwech:** Mynd i'r afael â mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeladau a'r amgylchedd

# Themâu Allweddol

Rydym wedi datblygu sawl Thema Allweddol sy'n tanategu ein Hamcanion Cydraddoldeb ar y cyd rydym yn credu fyddai'n helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a nodwyd. Nodir rhain isod o dan bob amcan.

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb yn berthnasol i'n holl sefydliadau a bydd gan bob sefydliad ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ei hunan ar sut maen nhw'n bwriadu dangos cynnydd wrth fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a nodwyd drwy ein hymchwil ac ymgysylltu.

Nid oes gan un sefydliad sengl a restrwyd uchod gyfrifoldeb llwyr am unrhyw un o'r amcanion, ond bydd bob sefydliad yn ymgymryd â gweithredu sy'n briodol i gylch gwaith eu sefydliad.

## **Amcan 1: Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd**

- 1.1 Cynyddu niferoedd y bobl sy'n dewis ffyrdd iach o fyw, ymhlith grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.
- 1.2 Cynyddu niferoedd y bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd, ymhlith grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.
- 1.3 Gwella urddas a pharch mewn gofal i bawb, yn enwedig pobl hŷn, pobl fregus, pobl trawsrywiau, lesbaidd, hoyw a deurywiol.
- 1.4 Cynyddu niferoedd y Teithwyr Sipsi a Theithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ataliol.
- 1.5 Mynd i'r afael yn well â hawliau a dyheadau pobl gyda phroblemau iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu.
- 1.6 Gweithio mewn partneriaeth a chyrrff cyhoeddus eraill yng ngogledd Cymru i fwyafu ein cyd-ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau lle bynnag bo modd.
- 1.7 Cynyddu lledaeniad imiwneiddio pobl hŷn fregus a phlant mewn cymunedau difreintiedig

## **Amcan 2: Mynd i'r afael â chanlyniadau anghyfartal mewn addysg i fwyafu potensial unigol**

- 2.1 Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol rhwng gwahanol grwpiau
- 2.2 Lleihau bwlian yn seiliedig ar hunaniaeth mewn Addysg

2.3 Cefnogir pobl ifanc i wneud y trosglwyddiad rhwng Addysg a Chyflogaeth

### **Amcan 3: Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog**

- 3.1 Nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o fewn recriwtio, cadw, hyfforddiant a phrosesau dyrchafiad
- 3.2 Nodi a mynd i'r afael â bylchau cyflog rhwng pobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol

### **Amcan 4: Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn diogelwch personol**

- 4.1 Cynyddu adrodd am droseddau casineb ac aflonyddu a chymryd camau i leihau digwyddiadau o droseddau casineb ac aflonyddu gan gynnwys camdrin a bwlian ar lein.
- 4.2 Cynyddu ar adrodd o gamdrin yn y cartref a chymryd camau i leihau camdriniaeth yn y cartref.
- 4.3 Cynyddu ymwybyddiaeth mewn cymunedau bregus ynghylch twyll dros y ffôn ac ar lein.

### **Amcan 5: Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cynrychiolaeth a Llais**

- 5.1 Cyrff gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.
- 5.2 Ymgynghori ac ymgysylltu'n gwella drwy gryfhau cysylltiadau rhwng y Sector Gyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o bob grŵp a warchodir.

### **Amcan 6: Mynd i'r afael â mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd**

- 6.1 Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebiadau a phrofiad y cwsmer, yn enwedig i bobl gyda nam ar y synhwyrau a'r rhai nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf.
- 6.2 Gwella mynediad ffisegol at wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd a adeiladwyd a llefydd agored.

# Y partneriaid

---



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ydy'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru. Mae'n darparu ystod lawn o wasanaethau cychwynnol, cymuned, iechyd meddwl ac ysbytai llym i boblogaeth o ryw 676,000 o bobl ar draws Gogledd Cymru a nifer sylweddol o ymwelwyr i'r ardal. Ein diben yw gwella iechyd a darparu gofal rhagorol.

Rydym yn:

- Cyflogi oddeutu 16,100 o staff
- Rheoli cyllideb o oddeutu £1.2 biliwn
- Rhedeg tri ysbyty cyffredinol dosbarth (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor yn Wrecsam).
- Darparu gofal mewn 18 ysbyty llym a chymunedol arall a rhwydwaith o dros 90 o ganolfannau iechyd, clinigau, canolfannau timau iechyd cymunedol ac unedau iechyd meddwl.
- Cydlynu gwaith 114 practis meddyg teulu a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr.

Ein gweledigaeth fel Bwrdd Iechyd Prifysgol yw creu Gogledd Cymru iachach a thecach, sy'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bawb wireddu eu potensial llawn.

- ✓ **Gwella iechyd y boblogaeth a wasanaethwn**, mae hyn yn golygu y bydd pawb, ymhen amser, yn gweld canlyniadau mewn gwella ansawdd a hyd bywyd, **ac** y bydd y canlyniadau hyn wedi eu rhannu'n decach ar draws y boblogaeth gyfan.
- ✓ **Darparu gofal rhagorol** a bydd ein canolbwynt am y 3 blynedd nesaf ar ddatblygu rhwydwaith o wasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae'r gwerthoedd, sef tegwch, parch, cydraddoldeb, urddas ac ymreolaeth, a nodir yn y dyletswyddau cydraddoldeb ac egwyddorion hawliau dynol, yn tanategu ein cyfeiriad strategol.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr rydym wedi cyhoeddi ein hamcanion cydraddoldeb yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) - gweler:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/47422>

### **Manylion Cyswllt**

Sally Thomas, Pennaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

[sally.thomas4@wales.nhs.uk](mailto:sally.thomas4@wales.nhs.uk)

Mike Townson, Uwch Reolwr Cydraddoldeb

[mike.townson@wales.nhs.uk](mailto:mike.townson@wales.nhs.uk)



**Gweledigaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yw creu Cymru iachach, hapusach a thecach. I gyflawni hyn, rydym yn gweithio i:**

1. Wella eich iechyd a'ch lles a lleihau'r bwlch o ran iechyd mewn cymunedau gwahanol yng Nghymru
2. Gwella cydraddoldeb, tegwch ac effeithiolrwydd yr holl wasanaethau gofal iechyd a'ch
3. Amddiffyn rhag afiechydon heintus fel y ffliw a pheryglon amgylcheddol

Bydd ein cynllun tair blynedd yn ein helpu i gyflawni hwn a gellir ei weld yma:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW%20Introducing%20the%20strategic%20plan%20booklet%20E.pdf>

Mae'n canolbwyntio ar saith flaenoriaeth:

- **Gweithio mewn ffordd wahanol i wella ein hiechyd**
- **Rhoi dechrau da mewn bywyd i'n plant**
- **Sicrhau bod gwasanaethau gofal cychwynnol yn iawn i chi**
- **Sicrhau eich bod yn cael y gofal gorau a gofal sy'n ddiogel gan y GIG**
- **Dylanwadu ar bolisi er mwyn helpu i amddiffyn a gwella eich iechyd**
- **Eich amddiffyn chi a'ch teulu**
- **Sicrhau bod ein gweithlu yn gwneud eu gorau i chi**



Mae Adroddiad Blynyddol 2015 Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus BIPBC: Mae Gogledd Cymru Iachach, Hapusach a Thecach (2) ar gael trwy [http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/15\\_276%20NW%20Director%20Public%20Health%20Annual%20Report%202015.pdf](http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/15_276%20NW%20Director%20Public%20Health%20Annual%20Report%202015.pdf), yn amlinellu'r cyd-destun i waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i bartneriaid o ran y nod o wella iechyd a lleihau anghydraddoldeb iechyd



Mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ei lleoli yng nghanol Gogledd Cymru. Mae gan y Fwrdeistref Sirol arwynebedd o 113,000 hectar a phoblogaeth o 115,228 o drigolion<sup>[1]</sup> (Cyfrifiad 2011). Mae 38% o'i harwynebedd a 4% o'i phoblogaeth o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r prif drefi strategol yn cynnwys; Conwy, Llandudno, Bae Colwyn, Cyffordd Llandudno, Abergele a Llanrwst.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu gwasanaethau mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys addysg, tai, gofal cymdeithasol i oedolion, plant a phobl ifanc. Mae gennym gyfrifoldebau cynllunio, rheoli adeiladu, amgylchedd, parciau a gerddi a chasglu gwastraff. Ni yw un o'r prif gyflogwyr yn yr ardal ac rydym hefyd o ddifrif ynglŷn â'n dyletswydd i ddarparu gwasanaethau cynhwysol a theg sydd mor hyblyg a dynamig â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Fel Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth i'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Chonwy, rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i bawb. Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn esbonio sut y byddwn yn gwneud hyn dros y 4 blynedd nesaf a bydd yn ein galluogi i roi ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth i bawb ar waith.

I weld ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol llawn, ewch i'n gwefan ar y cyfeiriad canlynol: [www.conwy.gov.uk](http://www.conwy.gov.uk) neu ddefnyddiwch y ddolen ganlynol:

<http://www.conwy.gov.uk/doc.asp?cat=12263&doc=37754&Language=2>

---

<sup>[1]</sup> Cyfrifiad 2011 Census, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>2</sup> Bwletin Ystadegol Cymru, Cyfrifiad 2011

## **Cysylltu**

Sian Wall

Swyddog cydraddoldeb ac adnoddau dynol

01492 576 225

Tracey Pardoe

Prif bartner adnoddau dynol busnes (cydraddoldeb)

01492 576 301

[equalities@conwy.gov.uk](mailto:equalities@conwy.gov.uk)

Tîm cydraddoldeb corfforaethol adnoddau dynol, Cyngor Conwy, Bodlondeb,  
Conwy, LL23 8DU

Mae Sir Ddinbych yn ardal ddaearyddol eang ac amrywiol gyda chytref arfordirol, trefi marchnad a phentrefi gwledig ac mae'n cynnwys cymysgedd bywiog o bobl, diwylliannau, amgylchiadau a phrofiadau.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn amlinellu ein hymrwymiad i gyflawni'r amcanion rhanbarthol a amlygir uchod. Mae gwaith cydraddoldeb o fewn y Cyngor wedi ei gydlynu gan ein Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol sy'n cynnwys y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Dr Mohammed Mehmet, Prif Weithredwr y Cyngor.

Rydym ni'n credu bod y rhaglen gydraddoldeb yn bwysig i holl waith y Cyngor ac, i adlewyrchu hyn, mae'r gweithgareddau rydym ni wedi ymrwymo iddynt yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael eu rheoli fel rhan o bob un o'n Cynlluniau Gwasanaeth ac yn gyfrifoldeb ar bob Pennaeth Gwasanaeth.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gael ar ein gwefan: [Cyngor Sir Ddinbych - Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#)

## **Manylion Cyswllt**

Keith Amos, Swyddfa'r Rhaglen Gorfforaethol a'r Tîm Gwybodaeth

E-bost: [equalities@sirddinbych.gov.uk](mailto:equalities@sirddinbych.gov.uk)

Rhif Ffôn: 01824 70 6101





Mae Cyngor Sir y Fflint yn gorff corfforaethol a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1974. Fel awdurdod unedol mae'n gyfrifol am bob un o ddyletswyddau prif awdurdod o fewn ei ffiniau. Mae ganddo 70 cynghorydd, sy'n cael eu hethol am gyfnod o bedair blynedd. Mae'r cynghorwyr yma'n atebol i drigolion eu wardiau etholiadol; eu prif ddyletswydd yw gwasanaethu pobl Sir y Fflint, ynghyd â chyfrifoldeb arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai na bleidleisiodd drostynt.

Mae'r Cyngor yn cyflogi 7,020 o bobl i ddarparu gwasanaethau i tua 150,000 o drigolion. Ymhlith y gwasanaethau mae celfyddydau, y dreth gyngor, addysg, tai, hamdden, llyfrgelloedd, cynllunio, casglu ysbwriel ac ailgylchu, gwasanaethau cymdeithasol, safonau masnach a thrafnidiaeth.

Nod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yn unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig sy'n byw neu'n gweithio yn Sir y Fflint.

### **Cysylltu:**

**Ymgynghorydd Polisi (Cydraddoldeb a Chydlyniant)**

**Tim Polisi a Pherfformiad**

**Cyngor Sir y Fflint**

**Neuadd y Sir**

**Yr Wyddgrug**

**Sir y Fflint**

**CH7 6NB**

**Ffôn: 01352 702 122**

**<http://www.flintshire.gov.uk/strategiequalityplan>**

**<http://www.siryfflint.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol>**



Mae Cyngor Gwynedd yn gwasanaethu ardal weledig sydd yn ymestyn o Abergwyngregyn yn y Gogledd i Aberdyfi yn y De ac o Uwchmynydd yn y Gorllewin i Landderfel yn y Dwyrain.

Mae Cyngor Gwynedd yn gwasanaethu 122,000 o drigolion dros arwynebedd o 2,548km sgwar.

Mae gan Wynedd:

2,883km o ffyrdd

301km o arfordir

oddeutu 57,000 o anheddau

65% o boblogaeth y sir yn siarad Cymraeg

Mae gennym ymrwymiad cadarn i gydraddoldeb ar gyfer trigolion ac ymwelwyr Gwynedd. Mae'r ymrwymiad hwn wedi ei amlygu o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol sydd ar gael ar ein gwefan;

Cymraeg:

<https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-cydraddoldeb/Rhagymadrodd-Cynllun-Cydraddoldeb-Strategol.pdf>

Saesneg:

<https://www.gwynedd.gov.uk/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Equality-scheme/Introduction-to-the-Strategic-Equality-Scheme.pdf>

**Manylion Cyswilt:**

Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid

Janet Roberts

Ffôn: 01286 679873

[JanetRoberts@gwynedd.gov.uk](mailto:JanetRoberts@gwynedd.gov.uk)

Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Iaith

Debbie Anne Williams Jones

Ffôn: 01286 679 267

[DebbieAnneWilliamsJones@gwynedd.gov.uk](mailto:DebbieAnneWilliamsJones@gwynedd.gov.uk)





Mae gan Ynys Môn arwynebedd o ychydig dros 700 cilometr sgwâr, sydd ar y cyfan yn wledig. Mae ei arfordir 200km o hyd yn denu llawer o ymwelwyr i fwynhau'r amrywiaeth o draethau a golygfeydd bendigedig. Mae'r A55 yn un o ddwy briffordd sy'n ein cysylltu â'r tir mawr, gan alluogi teithio cyflym i deithwyr a masnach rhwng Caergybi a gweddill Cymru a thu hwnt.

Mae gan Ynys Môn boblogaeth o tua 69,000. Caergybi, gyda phoblogaeth o 13,500, yw'r fwyaf o lawer o'r pum brif dref. Mae'r trigolion yn fwy gwasgaredig nag yng ngweddill Cymru, ond mae pawb o fewn hanner awr neu lai at ein prif swyddfeydd yn Llangefni.

Cafodd Cyngor Sir Ynys Môn ei greu ym mis Ebrill 1996 o ganlyniad i ad-drefnu llywodraeth leol. Mae'n gyfrifol am holl ddyletswyddau prif awdurdod, ac yn cyflogi tua thair mil o bobl.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gydraddoldeb fel darparwr gwasanaethau ac fel cyflogwr mawr. Mae cael gwared â gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon ymhob agwedd o'i waith yn flaenoriaeth i'r cyngor. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ymddangos ar y wefan:-

[www.ynysmon.gov.uk/cynlluncydraddoldeb](http://www.ynysmon.gov.uk/cynlluncydraddoldeb)

## **Cysylltu**

Cydraddoldeb

Yr uned polisi

Adran y dirprwy brif weithredwr

Cyngor Sir Ynys Môn

Llangefni

LL77 7TW

01248 752 561

01248 752 520

[cydraddoldeb@ynysmon.gov.uk](mailto:cydraddoldeb@ynysmon.gov.uk)



Mae gogledd Cymru - sef Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam - yn un o'r llefydd mwyaf diogel yn y Deyrnas Gyfunol. Mae'n gymysgedd difyr o ardaloedd diwydiannol a gwledig, pentrefi a threfi, parc cenedlaethol Eryri, a dau borthladd, sef Caergybi ar Ynys Môn a Mostyn yn Sir y Fflint. Mae nifer fawr o ymwelwyr yn heidio yma bob blwyddyn.

Mae Heddlu'r Gogledd yn gwasanaethu 676,000 o bobl dros arwynebedd o 6,300 cilometr sgwâr. Mae gan y llu tua 1500 plismon, 160 swyddog cymorth cymunedol a dros 800 o weithwyr heddlu.

Mae'r llu'n ymrwmo i gynnig gwasanaeth safonol i bawb. Mae'n hanfodol bod ein swyddogion yn medru darparu gwasanaeth addas ar gyfer anghenion pawb, sy'n golygu bod angen i ni fedru ymwneud â phawb yn ein hardal. Rydyn ni'n cydweithio gyda nifer fawr o unigolion a chyrff gwahanol, gan geisio barn elfennau amrywiol iawn o'n cymdeithas ynglŷn â'n perfformiad, a beth sy'n bwysig iddyn nhw.

Gwarchod trwy gydsynio a chydymdrechu yw ein meddylfryd, felly mae gan ein heddweision a'n gweithwyr gyfrifoldeb i adeiladu ymddiriedaeth a hyder trwy ddarparu ein gwasanaethau yn deg ac yn gytbwys ar bob achlysur, gan sicrhau ein bod yn dangos y parch angenrheidiol tuag at hawliau dynol pawb.

Mae anghenion ein cymunedau'n amrywio, ac mae safon ein gwasanaeth yn medru effeithio ar fywydau pobl a grwpiau. Rydyn ni wedi ymrwmo i wneud popeth o fewn ein gallu i rwystro tor-cyfraith ac ymddygiad anghymdeithasol a'u heffeithiau ar ddiodefwr. Mae manylion ein hymdrechion, sy'n cynnwys ein Cynllun Cydraddoldeb sy'n esbonio sut y byddwn yn ymateb i ddyletswyddau cyffredinol a phenodol Deddf Cydraddoldeb 2010, ar ein gwefan:-

<http://www.north-wales.police.uk/media/468945/72578-Equality-Plan-2015-W.pdf>

## **Cysylltu**

Greg George

Pennaeth amrywiaeth

01745 588 483

gregory.george@nthwales.pnn.police.uk

Lee Bailey

Swyddog amrywiaeth

01492 804 974

Lee.bailey@nthwales.pnn.police.uk



Awdurdod lleol un diben yw Parc Cenedlaethol Eryri, gyda dau bwrpas statudol:-

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y parc.

Mae gan yr awdurdod gyfrifoldeb am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, a'r cyfle i fwynhau'r parc.

Prif waith cydraddoldeb yr awdurdod yw cael gwared ar y rhwystrau corfforol a chymdeithasol yn erbyn manteisio ar y parc a'i gyfleusterau, ynghyd â gwella'r wybodaeth yr ydym yn ei darparu.

Mae ein cynllun cydraddoldeb yn ymddangos yma:-

<http://www.eryri-npa.gov.uk/cym/visiting/snowdonia-for-all/equality-scheme>

### **Cysylltu**

Bethan Wyn Hughes, Jo Worrall neu Carys Dafydd

[Bethan.Hughes@eryri-npa.gov.uk](mailto:Bethan.Hughes@eryri-npa.gov.uk)

[Jo.Worrall@eryri-npa.gov.uk](mailto:Jo.Worrall@eryri-npa.gov.uk)

[Carys.Dafydd@eryri-npa.gov.uk](mailto:Carys.Dafydd@eryri-npa.gov.uk)

01766 770 274

Awdurdod parc cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd

LL48 6LF



Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am lywodraethu plismona yng Ngogledd Cymru. Mae rôl y Comisiynydd wedi disodli Awdurdod yr Heddlu ers 2012. Mae ar y Comisiynydd gyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n dangos gwerth am arian ac, yn bwysicaf oll, sy'n lleihau trosedd. Prif ddyletswyddau'r Comisiynydd yw:

- Gosod y blaenoriaethau ar gyfer plismona yng ngogledd Cymru
- Penderfynu ar y gyllideb ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru
- Dal y Prif Gwnstabl yn atebol, a
- Gwrando ar farn y cyhoedd ynglŷn â phlismona.

Mae gan y Comisiynydd amrediad o bwerau a chyfrifoldebau i'w gynorthwyo i gyflawni'r dyletswyddau hyn, gan gynnwys:

- Bod yn atebol i'r etholaeth a chynrychioli'r cyhoedd ar faterion plismona
- Paratoi Cynllun Heddlu a Throsedd sy'n amlinellu'r cyfeiriad strategol a'r amcanion ar gyfer plismona yng ngogledd Cymru.
- Gosod y praesept plismona, sef yr elfen o dreth y cyngor sy'n mynd tuag at blismona.
- Gweithio gyda phartneriaid i atal a thaclo troseddu ac aildroseddu
- Dal yr Heddlu'n atebol, drwy'r Prif Gwnstabl, am ddarpariaeth gwasanaethau plismona.
- Penodi, ac os bydd angen, diswyddo'r Prif Gwnstabl
- Goruchwylio cwynion yn erbyn Heddlu Gogledd Cymru
- Comisiynu gwasanaethau a phrosiectau diogelwch cymunedol yn yr ardal.
- Sicrhau y gweithredir ar flaenoriaethau'r cyhoedd, yr ymgynghorir â dioddefwyr ac nad yw'r unigolion mwyaf diamddiffyn yn cael eu hesgeuluso.
- Sicrhau gwerth am arian

Ein nod yw cydweithio â'n cymunedau lleol a'n partneriaid er mwyn sicrhau gwasanaeth plismona o'r radd flaenaf ac er mwyn creu gogledd Cymru gwell a diogelach.

Mae'r Comisiynydd yn darparu cyswllt rhwng yr Heddlu a chymunedau lleol ledled Gogledd Cymru. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithio mewn partneriaeth agos â Heddlu Gogledd Cymru.

Darperir gwybodaeth ar ein gwefan sy'n rhoi mwy o fanylion am rôl y [Comisiynydd Heddlu a Throsedd](#).

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cydweithio â'r Heddlu er mwyn creu [Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd](#). Mae'r cynllun yn cynnwys manylion am sut bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

### **Manylion Cyswllt**

Elizabeth Ward, Swyddog Polisi, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Rhif Ffôn - 01492 804071. E-bost: [elizabeth.ward@nthwales.pnn.police.uk](mailto:elizabeth.ward@nthwales.pnn.police.uk)



Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yw'r trydydd gwasanaeth ambiwlans mwyaf yn y DU. Rydym yn gwasanaethu poblogaeth o 3.1 miliwn ar draws 7969 milltir sgwâr. Ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth ambiwlans i bobl Cymru yw gwasanaeth sy'n darparu gofal o ansawdd uchel ble bynnag a phryd bynnag mae ei angen. Rydym yn darparu dau fath o wasanaeth ambiwlans i bobl yng Nghymru, gofal brys a gwasanaethau gofal cleifion wedi'u trefnu. Rydym hefyd yn darparu Gwasanaeth Cynghori a Gwybodaeth Iechyd drwy Galw Iechyd Cymru. Mae ein hardal amrywiol yn cwmpasu ardaloedd gwledig, canolfannau gwyliau glan môr prysur a dinasoedd trefol mawr. Mae ein gwasanaethau amrywiol wedi'u llunio'n arbennig ar gyfer anghenion meddygol pob cymuned o geir ymateb cyflym i ambiwlansys, i barafeddygon ar y ffordd a nyrsys yn ein canolfannau cyswllt clinigol.

Rydym wedi ymgysylltu â staff a defnyddwyr gwasanaeth i gasglu adborth sy'n llywio ac yn dylanwadu ar ein gwaith. Rydym yn casglu adborth yn barhaus o arolygon cenedlaethol a lleol i'n hysbysu ar y ffordd y darperir ein gwasanaethau.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) "Trin Pobl yn Deg" yn un pwynt mynediad ar gyfer ein gwaith o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Cymru ac ar gael ar ein gwefan. Mae ein rhwydweithiau ehangach yn parhau i ddatblygu ar draws y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau ein dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru)

### **Cysylltu**

James T. Moore, Associate Director for Workforce & Organisational Development

[James.T.Moore@wales.nhs.uk](mailto:James.T.Moore@wales.nhs.uk)



Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithio i sicrhau fod Wrecsam a'i phobl yn derbyn cymorth i gyrraedd eu potensial, ffynnu a mwynhau bywyd llesol. Mae'r Cyngor yn gwneud hyn drwy ddarparu a galluogi gwasanaethau ar gyfer yr ystod amrywiol o unigolion a chymunedau sy'n cynnwys 135,000 o drigolion lleol a'r llawer mwy sy'n gweithio, dysgu, neu'n ymweld â'r Fwrdeistref Sirol.

Cynllun y Cyngor yw cynllun uchaf y Cyngor, yr un y mae pawb yn gweithio tuag ato. Mae'n egluro blaenoriaethau'r Cyngor a sut y cawsant eu datblygu, yn diffinio lle byddwn yn canolbwyntio ein hegri a'n hadnoddau, a sut y byddwn yn barnu ein perfformiad. Mae'n amlinellu pedair blaenoriaeth allweddol sy'n cysylltu'n glir â'r chwe amcan cydraddoldeb rhanbarthol a lleol y mae'r Cyngor wedi eu mabwysiadu a'u cynnwys yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae blaenoriaethau Cydraddoldeb Strategol a Chynllun y Cyngor ar gyfer 2016-20 yn cynnwys:

Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor	Amcanion Cydraddoldeb
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Economi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog.</li> <li>•</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pobl</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau anghydraddoldeb mewn iechyd.</li> <li>• Lleihau anghydraddoldeb mewn addysg.</li> <li>• Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol.</li> <li>•</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Lle</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau anghydraddoldeb wrth gael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd.</li> <li>•</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydliad</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau anghydraddoldebau o ran cynrychiolaeth a llais</li> <li>•</li> </ul>

Mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu pob un o'r chwe amcan cydraddoldeb rhanbarthol.



## **Manylion Cyswilt**

Gill Grainger

Rheolwr Amrywiaeth Cymunedol

01978 298736

[gillian.grainger@wrexham.gov.uk](mailto:gillian.grainger@wrexham.gov.uk)



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Fire and Rescue Service

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth amddiffyn ac atal tanau i boblogaeth o tua 678,461 o bobl mewn ardal sy'n 2,400 milltir sgwâr yn ogystal â channoedd o filoedd o ymwelwyr sy'n dod i Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Mae oddeutu 317,051 eiddo domestig a 24,484 eiddo annomestig yng Ngogledd Cymru sydd dan ein gofal ni.

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi bron i 1,000 o staff mewn rolau gweithredol a chefnogol.

Rydym yn delio â rhyw 3,200 o danau bob blwyddyn, tua 500 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a thua 500 o argyfyngau eraill. Rydym hefyd yn cael ein galw i tua 3,600 o alwadau diangen o bob math.

Rydym yn gwneud gwaith helaeth gydag ysgolion, busnesau a chymunedau yn yr ardal i hyrwyddo diogelwch tân ac atal tanau.

Mae'r Awdurdod yn weithredol ar draws tair ardal: Gwynedd ac Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych a Wrecsam a Sir y Fflint. Mae gan bob ardal swyddfa ddiogelwch cymunedol a rheolwr diogelwch cymunedol dynodedig.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i bawb, trwy ddarparu gwasanaeth proffesiynol sydd yn croesawu amrywiaeth ac sydd yn hybu cyfle cyfartal. Wrth ddarparu gwasanaethau i boblogaeth amrywiol rydym yn cydnabod bod gan bawb wahanol anghenion. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i sicrhau parch a thegwch i drigolion, aelodau etholedig, aelodau staff a phawb sydd yn ymweld â Gogledd Cymru.

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb wedi eu cyhoeddi yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac mae ar gael ar ein gwefan [http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/91758/microsoft\\_word\\_-\\_final\\_strategic\\_equality\\_plan\\_cymraeg-cover.pdf](http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/91758/microsoft_word_-_final_strategic_equality_plan_cymraeg-cover.pdf)

**Manylion Cyswilt**

Sue Jones, Ymgynghorydd Cydraddoldeb – Rhif Ffôn 01745 535266

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Ffordd Salesbury



Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn ddarparwr o wasanaethau prawf ac rydym yn cyflogi tua 700 aelod o staff dros ein swyddfeydd ledled Cymru.

Rydym yn gweithio gydag oddeutu 8,000 o oedolion sy'n droseddwy'r risg isel neu ganolig sydd un ai wedi'u dedfrydu gan y llysoedd i gyflawni gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu rhai sydd wedi'u rhyddhau o'r carchar ar drwydded i gwblhau eu dedfryd yn y gymuned.

Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn darparu nifer o fathau o wasanaethau prawf i helpu i ostwng aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed, drwy reoli dedfrydau cymunedol y troseddwy'r a rhoi iddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i roi'r gorau i droseddu. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni adfer ac adsefydlu arbenigol, gwaith heb dâl i wneud iawn â'r gymuned, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, mentora a gweithio gyda theuluoedd troseddwy'r. Mae ein rhaglenni'n mynd i'r afael ag yfed a gyrru, camddefnydd o gyffuriau ac alcohol, cam-drin domestig a mathau eraill o ymddygiad treisgar ac yn cymell troseddwy'r i ddatblygu sgiliau meddwl.

Mae gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ymrwymiad i hyrwyddo ac i ddarparu cyfleodd cydraddoldeb i bawb. Mae hyn yn golygu sicrhau fod cydraddoldeb wedi ei fewnblannu trwy ein darpariaeth cyflogaeth a'n gwasanaethau ac mae gennym Amcanion Cydraddoldeb a chynllun pwrpasol mewn lle er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni hyn.

**Manylion Cyswllt :**

Russell Williams, Cydlynnydd Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb

Rhif Ffôn : 01492 524008



Lleolir Coleg Cambria yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a chafodd ei sefydlu ym mis Awst 2013 yn dilyn cyfuno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl. Roedd gan y ddau sefydliad hyn enw da sefydledig am ragoriaeth ledled y Deyrnas Unedig o ran eu llwyddiannau academaidd a galwedigaethol ac am y gofal a'r gefnogaeth a roddwyd ganddynt i'w myfyrwyr.

Galluogodd yr uno i'r Coleg newydd gynnig portffolio eang o gyrsiau'n ymestyn o sgiliau hanfodol i raglenni ar safon gradd. Mae Coleg Cambria'n cynnig ystod eang o raglenni hyfforddi prentisiaethau, cyrsiau rhan-amser yn y gymuned i ddysgwyr sy'n oedolion ac mae wedi datblygu rhaglen cyswllt ysgolion helaeth i ddysgwyr 14 – 16 oed ledled Gogledd Ddwyrain Cymru. Un o'r prif amcanion yw sicrhau bod pob myfyriwr wedi cofrestru ar y cwrs mwyaf priodol i'w gofynion unigol. Mae'r Coleg yn darparu ar gyfer dros 7000 o ddysgwyr llawn amser gydag 20,000 o ddysgwyr eraill wedi cofrestru ar raglenni rhan-amser amrywiol yn y cymunedau ac mewn busnesau yn yr ardal.

Mae Coleg Cambria hefyd yn flaenllaw ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol, y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r Rhwydwaith Dysgu 14-19. Mae'r Rhwydwaith yn dal i ddatblygu ac ehangu'r portffolio dysgu cydweithredol sydd ar gael i ddysgwyr ledled Gogledd Ddwyrain Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn cyflogi tua 1600 o staff llawn amser a rhan-amser. Mae ganddo drosiant blynyddol sydd tua £65 miliwn. Daw mwyafrif y cyllid o Lywodraeth Cymru gyda 30% yn dod o gyllid di-graidd Addysg Bellach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gan y Coleg 6 prif safle a chanddo ddarpariaeth allgymorth helaeth yn ogystal.

Gwerthoedd Craidd y Coleg sy'n greiddiol i'n hymrwymiad i ragoriaeth ym mhopeth a wnawn. Yng Ngholeg Cambria, rydym yn:

- ymroddedig i addysgu a dysgu eithriadol
- rhoi ein cwsmeriaid yn gyntaf
- parchu eraill a'n hamgylchedd
- annog a dathlu amrywiaeth
- ymhyfrydu yn ein hunaniaeth Gymreig
- digon dewr i arwain
- cydweithio gyda brwdfrydedd
- galluogi a datblygu potensial
- cydnabod cyraeddiadau a dathlu llwyddiant
- cyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel

**Manylion Cyswllt :**

**Elane Roberts - Cydlynnydd Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol/Equality and Community Cohesion Co-Ordinator**

Sefydlwyd coleg sefydlol cynharaf Prifysgol Glyndŵr Wreccsam yn 1887, gyda grymoedd dyfarnu graddau a theitl prifysgol yn cael eu rhoi yn 2008.

Mae cyrsiau wedi'u harwain gan ddiwydiant wrth graidd yr hyn yr ydym yn ei gynnig ac rydym yn ymfalchïo yn ein cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol a rhanbarthol o bwys.

Yn ogystal â'n campws yn Wreccsam, erbyn hyn mae gennym leoliadau yn Llanelwly a Llanelwain yng Ngogledd Cymru a campws yn Llundain.

Mae gan y Brifysgol oddeutu 7,000 o fyfyrwyr, gyda thraean ohonynt yn astudio yn rhan-amser, a llawer o'r rhain yn astudio trwy drefniadau gyda chyflogwyr lleol. Mae gan y Brifysgol dros 300 o fyfyrwyr rhyngwladol, y mwyafrif ohonynt wedi'u lleoli ar ein campws yn Llundain.

Yr ydym yn falch o'r cyfleoedd yr ydym yn eu darparu i bobl o gefndiroedd anhraddodiadol, gan eu helpu i fynd i addysg uwch. Mae dros hanner ein myfyrwyr yn astudio yn rhan-amser ac rydym yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r DU am gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol economaidd isel trwy brifysgol yn sgil ein Ehangu Cyfranogiad cynhwysfawr yn y gymuned leol.

Mae Prifysgol Glyndŵr Wreccsam yn cyflenwi cannoedd o gyrsiau ar wahanol lefelau a thrwy ystod o opsiynau astudio, ac rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau gwych, opsiynau astudio hyblyg, cymuned gefnogol, cyrsiau gyrfa-ganolog a'n myfyrwyr.

Mae gan y Brifysgol dros 500 o staff academiaidd a gweithredol.

Ein cenhadaeth yw gweithio mewn partneriaeth i ysbrydoli ac addysgu ein myfyrwyr a galluogi llwyddiant cymdeithasol ac economaidd, gan ymroi i:

- Creu cymuned academiaidd sy'n croesawu dysgwyr o bob cefndir, yn gosod myfyrwyr wrth graidd yr hyn yr ydym yn ei wneud a'u cyfarparu ar gyfer bywyd, gwaith a llwyddiant;
- Gweithio mewn partneriaeth â dysgwyr i ddeall eu hanghenion a gwneud defnydd o greadigrwydd, gwybodaeth ac ymroddiad ein staff i greu amgylcheddau dysgu rhagorol sy'n cefnogi myfyrwyr i ganlyniadau academiaidd llwyddiannus;
- Chwarae rôl allweddol yn natblygiad economaidd yr ardal, gan yrru twf yn yr economi Gymreig ac economi'r DU yn fwy cyffredinol;
- Ffurfio perthnasau buddiol o'r ddeutu gyda phrifysgolion a cholegau addysg bellach partnerol i gwrdd ag anghenion rhanbarthol, cefnogi ein datblygiad a chwrrdd ag amcanion ar y cyd;

- Cydweithio gyda busnes, diwydiant a'r gymuendau ehangach a wasaenaethir gennym, i gefnogi mwy o arloesedd a thwf a hybu cyflogadwyedd myfyrwyr;
- Ymgysylltu ag ymchwil ac ysgoloriaeth academaidd i ddatblygu'r pynciau a addysgir gennym ac i yrru arloesedd ac arfer gorau mewn partneriaeth gyda busnes a diwydiant, y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a chreadigol;
- Gweithredu mewn modd proffesiynol a hygyrch a sefydlu cynaliadwyedd, hydwythedd ac arferion gorau yn ein gwaith.

Manylion Cyswllt:

Ali Pugh – Partner Busnes, Datblygiad ac Amrywiaeth

Rhif Ffôn – 01978 293307

[alison.pugh@glyndwr.ac.uk](mailto:alison.pugh@glyndwr.ac.uk)



